



Sgrinio Clyw Babanod Cymru
Newborn Hearing Screening Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019-20

Hydref 2022



Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

Diogelu iechyd — darparu gwybodaeth a chynghor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

Microbioleg — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

Diogelu — darparu arbenigedd a chynghor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

Sgrinio — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

Gwybodaeth iechyd — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG — darparu gwybodaeth, cynghor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

Gwella iechyd — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd

Rhagor o wybodaeth

Gwefan: icc.gig.cymru
E-bost: ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk
Twitter: [@IechydCyhoeddus](https://twitter.com/IechydCyhoeddus)
Facebook: facebook.com/iechydcyhoedduscymru

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynnyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan Sgrinio Clyw Babanod Cymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2019 tan ddiwedd mis Mawrth 2020. Nodir y canlyniadau fesul Bwrdd Iechyd ac maent wedi'u dadansoddi i ddangos lleoliad yr ysbyty lle mae sgrinio neu asesu wedi'u cynnal mewn rhai achosion. Mae rhagor o fanylion ar gael ar gais.

Manylion Cyhoeddi:

Teitl: Adroddiad Ystadegol Blynnyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019-20

Dyddiad: Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Hydref 2022

ISBN: 978-1-78986-154-581

I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn cysylltwch â:

Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Yr Is-adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y
Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: 029 2010 4405

E-bost: Screening.Information@wales.nhs.uk

Datganiad Sicrhau Ansawdd

Mae cofnodion sgrinio data yn cael eu diwedddaru'n barhaus. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diwedddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi'i nodi fel rhywun y mae angen gwasanaeth sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o ffynonellau gwahanol sy'n amrywio o ran cywirdeb a chyflawnder. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data – er enghraifft data practis meddyg teulu – ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnder y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod data yn cael eu diwedddaru'n barhaus a gall fod mân ailaddasiadau yn y niferoedd a ddyfynnir yn y ddogfen hon o un flwyddyn i'r llall oherwydd adnewyddu data.

© 2022 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon heb ganiatâd ymlaen llaw ar
yr amod y gwneir hynny'n gywir a heb ei ddefnyddio mewn cyd-destun
camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn
eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cynnwys

1	CYFLWYNIAD.....	7
1.1	'Negeseuon allweddol' i rieni.....	7
1.2	Cyflawni'r rhaglen.....	7
1.3	Llwybr sgrinio	8
1.4	Effaith COVID-19 ar NBHSW	9
2	PENAWDAU YSTADEGOL.....	10
3	DATA.....	11
3.1	Safonau	11
3.2	Cwmpas.....	16
3.3	Amseroldeb profi	17
3.4	Presenoldeb mewn apwyntiadau sgrinio i fabanod iach	19
3.5	Babanod risg uchel sy'n cwblhau sgrinio	20
3.6	Canlyniadau Sgrinio	21
3.7	Atgyfeiriadau ar gyfer asesu	23
3.8	Presenoldeb mewn apwyntiadau asesu - babanod iach a risg uchel.....	24
3.9	Yr amser a gymerir i ddechrau a chwblhau asesiadau.....	25
3.10	Cadarnhau colli clyw	27
3.11	Gosod cymorth clyw.....	28
3.12	Deilliant, Sensitifrwydd, Penodoldeb a Gwerthoedd Rhagfynegol	29
4	DIFFINIADAU	30
5	TÎM CYNHYRCHU	31

Tablau a Graffiau

Tabl 1: Safonau perfformiad y rhaglen	10
Tabl 2: Cyfanswm nifer y genedigaethau byw yn ôl Bwrdd Iechyd, babanod cymwys ac addas, nifer a chyfran a gydsyniodd ac a brofwyd.....	16
Graff 1: Babanod iach a gafodd y prawf cyntaf yn yr ysbyty o fewn saith diwrnod i'w genedigaeth	17
Graff 2: Babanod iach a gafodd y prawf cyntaf yn y gymuned o fewn saith diwrnod i'w genedigaeth	17
Graff 3: Babanod iach a gwblhaodd sgrinio o fewn pedair wythnos.....	18
Tabl 3.i: Presenoldeb babanod iach mewn apwyntiadau sgrinio Cymru gyfan	19
Tabl 3.ii: Presenoldeb babanod iach mewn apwyntiadau sgrinio fesul Bwrdd Iechyd	19

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

Graff 4: Babanod risg uchel sy'n cwblhau sgrinio.....	20
Tabl 4: Canlyniadau sgrinio ar gyfer babanod iach.....	21
Tabl 5: Canlyniadau sgrinio ar gyfer babanod risg uchel.....	20
Tabl 6: Atgyfeiriadau ar gyfer asesu	21
Tabl 7.i: Presenoldeb Cymru gyfan mewn apwyntiadau asesu (gan gynnwys clinig cymunedol ac ysbyty y tu allan i Gymru).....	24
Tabl 7.ii: Presenoldeb mewn apwyntiadau asesu yn ôl Bwrdd Iechyd	24
Tabl 8: Yr amser a gymerir i ddechrau asesiad	25
Tabl 9.i: Amser Cymru Gyfan a gymerwyd i gwblhau'r asesiad (mae'n cynnwys clinigau cymunedol ac ysbytai y tu allan i Gymru).....	26
Tabl 9.ii: Amser a gymerir i gwblhau asesiad fesul ysbyty.....	26
Tabl 10: Nifer y babanod ag achosion a gadarnhawyd o golli clyw a anwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 yn ôl Rhanbarth	27
Tabl 11: Oedran cadarnhau colli clyw.....	28
Tabl 12: Oedran pan osodwyd y cymorth clyw.....	28
Graff 5: Gosod cymorth clyw o fewn pedair wythnos i nodi colli clyw yn ôl Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019 – 2020.....	29

1 Cyflwyniad

Dyma'r unfed adroddiad ystadegol blynyddol ar bymtheg i'w gyhoeddi gan Sgrinio Clyw Babanod Cymru (NBHSW). Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data ar gyfer babanod a anwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

Caiff un neu ddau o fabanod o bob 1,000 eu geni â nam ar y clyw a all effeithio ar ddatblygiad eu lleferydd ac iaith. Lansiwyd NBHSW yn 2003 ac mae'n ceisio nodi'r babanod hyn mor gynnar â phosibl, oherwydd bod tystiolaeth yn dangos bod cyflwyno rhaglen gymorth gynnar cyn chwe mis oed yn arwain at well canlyniadau o ran datblygiad lleferydd ac iaith.

1.1 'Negeseuon allweddol' i rieni

- Mae sgrinio clyw babanod yn nodi a oes gan eich babi nam ar y clyw a allai effeithio ar ei ddatblygiad lleferydd ac iaith heb gymorth cynnar
- Caiff pob baban a enir i fenywod sy'n byw yng Nghymru gynnig sgrinio clyw babanod yn fuan ar ôl genedigaeth
- Caiff sgrinio ei gynnig naill ai pan fyddwch yn dal yn yr ysbyty ar ôl genedigaeth eich babi, neu wythnos neu ddwy yn ddiweddarach, fel arfer mewn clinig lleol
- Mae babanod y bu angen gofal arbennig arnynt fel arfer yn cael eu sgrinio clyw cyn iddynt fynd adref
- Nid yw'r profion sgrinio yn brifo nac yn niweidio eich babi
- Nid yw sgrinio'n nodi'r holl golli clyw nac yn ei atal ar ddyddiad diweddarach
- Eich dewis chi yw sgrinio clyw eich baban. Bydd y sgriniwr clyw babanod a'r daflen "Prawf Sgrinio Clyw eich Babi" yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi

1.2 Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen Sgrinio Clyw Babanod. Mae'n un o dair rhaglen o fewn Sgrinio Mamau a Phlant. Mae'r rhaglen yn cael ei gweinyddu a'i chyflawni mewn tri Rhanbarth ledled Cymru ac mae'n cyflogi Cydlynwyr, Rheolwyr Sgrinio, Sgrinwyr a staff gweinyddol. Mae Rhanbarth Gogledd Cymru yn cwmpasu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae Rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn cwmpasu

bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae sgrinio babanod ym Mhowys yn cael ei rannu ar draws y tri Rhanbarth gan ystyried agosrwydd daearyddol a'r defnydd mwyaf effeithiol o staff ac adnoddau. Darperir asesiad diagnostig a chymorth cynnar gan rwydwaith clinigol o awdiolegwyr ac arweinwyr meddygol ym mhob Bwrdd Iechyd.

1.3 Llwybr sgrinio

Caiff babanod sy'n gymwys ar gyfer eu sgrinio eu nodi ym mhob Bwrdd Iechyd gan hysbysiadau geni bydwagedd. Mae Sgrinwyr Clyw Babanod yn cynnig profion sgrinio i fabanod sydd yn yr ysbyty, ac mewn clinigau cymunedol lle na fu'n bosibl cynnal y prawf sgrinio yn yr ysbyty. Mae'r rhan fwyaf o fabanod mewn gofal dwys i'r newydd-anedig neu unedau gofal babanod arbennig yn cael eu sgrinio cyn cael eu rhyddhau.

Caiff babanod iach sy'n cael ymateb clir mewn un neu'r ddwy glust mewn prawf sgrinio eu rhyddhau o'r rhaglen. Caiff rhieni babanod iach ag ymateb clir mewn un glust gynnig y cyfle i wneud trefniadau ar gyfer prawf clyw pellach. Caiff y rhai nad ydynt yn dangos ymateb clir yn y ddwy glust ar ddiwedd y broses sgrinio eu hatgyfeirio i gael asesiad diagnostig.

Caiff babanod risg uchel sy'n cael ymateb clir yn y ddwy glust mewn prawf sgrinio, eu rhyddhau o'r rhaglen. Caiff y rhai nad ydynt yn dangos ymateb clir mewn un neu'r ddwy glust ar ddiwedd y broses sgrinio eu hatgyfeirio i gael asesiad diagnostig.

Caiff babanod sy'n colli neu nad ydynt yn cwblhau sgrinio neu asesu gynnig prawf clyw gan eu Bwrdd Iechyd lleol pan fyddant yn naw mis oed.

Caiff asesiadau diagnostig eu cynnal gan awdiolegwyr mewn Byrddau Iechyd. Os yw'n briodol, caiff cymhorthion clyw eu gosod ar fabanod y nodwyd bod ganddynt nam ar y clyw ac fe'u cynorthwyir gan dîm blynyddoedd cynnar amlddisgyblaethol. Mae'r tîm yn cynnwys meddyg arbenigol, athro/athrawes y byddar, awdiolegydd ac arbenigwr lleferydd ac iaith.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn
www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk

1.4 **Effaith COVID-19 ar NBHSW**

Gwelwyd effaith pandemig Covid-19 tuag at ddiwedd y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn ond roedd angen newid cyflym a sylweddol o ran cyflwyno'r rhaglen er mwyn sicrhau diogelwch babanod, rhieni a staff. Parhaodd Sgrinio Clyw Babanod i gael ei gyflwyno gan Sgrinwyr Clyw Babanod ledled Cymru ar y wardiau ôl-enedigol ac mewn Unedau Gofal Arbennig a Gofal Dwys Newydd-anedig drwy gydol pandemig Covid-19, gyda'r nod o gwblhau sgrinio clyw ar gyfer cynifer o fabanod â phosibl yn yr ysbyty. Fodd bynnag, nid yw pob babi yn gallu cwblhau ei sgrinio yn yr ysbyty (mae hyn yn cynnwys babanod sy'n cael eu rhyddhau y tu allan i'r oriau a gwmpesir gan y Tîm Sgrinio Babanod, y babanod hynny sy'n cael eu geni yn y cartref a babanod mamau sy'n profi'n bositif ar gyfer Covid). Yn unol â chyfarwydddebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, cafodd Clinigau Cymunedol NBHSW eu gohirio ar 18 Mawrth 2020 tan fis Gorffennaf-Awst 2020. Ar adeg cyhoeddi, mae Clinigau Cymunedol ledled Cymru yn parhau'n destun cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau mewn lleoliadau lleol.

Mae manylion llawn y camau gweithredu a gymerwyd gan NBHSW mewn ymateb i bandemig Covid-19, gan gynnwys newidiadau i'r model gwasanaeth a chyfranogiad gwasanaethau Awdioleg mewn sgrinio i'w canfod yn yr adroddiad 'Newidiadau i Lwybr Sgrinio NBHSW yn ystod Covid 19', , sydd ar gael gan NBHSW ar gais.

Mae babanod nad oedd modd cynnig sgrinio iddynt yn yr ysbyty, neu a oedd yn aros am brawf sgrinio cychwynnol yn y gymuned ar 18 Mawrth 2020, yn cael eu hystyried yn gymwys i gael eu sgrinio ond maent wedi'u cofnodi gan NBHSW â statws 'sgrinio wedi'i ohirio' a'u hatgyfeirio i gael Profion Ymddygiad wedi'u Targedu. Cafodd llawer o'r babanod hyn gynnig sgrinio gan wasanaethau Awdioleg neu gan NBHSW yn ddiweddarach. Ceir manylion yn yr adroddiad 'Rheoli babanod yr effeithir arnynt gan ohirio clinigau cymunedol NBHSW oherwydd Covid-19', sydd ar gael o NBHSW ar gais.

Cafodd babanod a oedd yn aros i gael sgrinio dilynol mewn Clinigau Cymunedol ar adeg cau clinigau eu hatgyfeirio i Awdioleg i gael asesiad diagnostig (ond roeddent yn gallu cael sgrinio AOA arall mewn Awdioleg i ddechrau).

Er gwaethaf ymdrechion i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i fabanod gwblhau sgrinio yn yr ysbyty, yn anochel bu effaith ar weithgarwch perfformiad sgrinio drwy gydol y pandemig, sydd wedi'i adlewyrchu yn yr Adroddiad Ystadegol Blynyddol hwn. Yn ddealladwy, mae amharodrwydd teuluoedd i fynd i glinigau Awdioleg ar gyfer naill ai cwblhau sgrinio neu ar gyfer asesiad diagnostig hefyd wedi effeithio ar berfformiad y rhaglen. Gellir gweld yr effaith hon yn y cyfnod cyn canol mis Mawrth 2020 pan ddaeth

newidiadau i wasanaethau a chyfnodau clo i rym, ac roedd pryder ynghylch y feirws Covid-19 eisoes yn codi.

Hoffai NBHSW gydnabod y gwasanaethau Awdioleg ledled Cymru a weithiodd yn ddiflino i sicrhau bod babanod nad oedd modd iddynt gael eu sgrinio yn yr ysbyty yn cael pob cyfle posibl i gael sgrinio clyw newyddenedigol, asesiad diagnostig a sefydlu amserol. Rydym yn ddiolchgar hefyd i'r sgrinwyr a gafodd eu hadleoli o'r Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol (AAA).

2 Penawdau ystadegol

Sgrinio

- Mae'r cyfraddau cwmpasu yn dangos bod sgrinio yn cael ei gynnig i 98.7% o fabanod cymwys (29,767) gyda 97.4% (28,982) wedi'u profi, a phrin iawn oedd y rhieni a wrthododd y sgrinio
- Ledled Cymru, mae 75.2% o fabanod iach yn cael eu sgrinio o fewn saith diwrnod i'w genedigaeth sy'n cyrraedd y safon 70%
- Mae 97.8% o fabanod iach yn cwblhau sgrinio o fewn pedair wythnos. Mae 100.0% o'r holl fabanod risg uchel yn cwblhau'r rhaglen sgrinio

Asesu

- Mae 1.2% o'r babanod sy'n cael eu sgrinio yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad
- Mae 89.3% o fabanod sy'n cael eu hatgyfeirio am asesiad yn cwblhau'r broses asesu o fewn tri mis
- Mae'r amser a gymerir i ddechrau'r broses asesu o fewn yr amser a ddyrennir ar gyfer 96.2% o fabanod iach (o fewn pedair wythnos i'r prawf sgrinio terfynol) a 98.8% o fabanod risg uchel (o fewn wyth wythnos i'r prawf sgrinio terfynol)

- Mae 91.0% o'r babanod a gafodd eu hatgyfeirio wedi mynd i gael asesiad
- Aethpwyd i 72.7% o apwyntiadau asesu
- Ni chafodd 9.0% o fabanod a atgyfeiriwyd i gael eu hasesu eu gweld yn sgil peidio â mynd i'r apwyntiad

Canlyniadau

- Mewn babanod a anwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, roedd nifer yr achosion o golli clyw parhaol a ddiagnoswyd sy'n fwy na 40 dBHL yn y ddwy glust oedd 1.1 fesul 1,000 o'r babanod hynny a sgriniwyd. Mae hyn ychydig yn is na nifer yr achosion a gofnodwyd ers dechrau'r rhaglen, sef 1.5 fesul 1,000.
- Yr oedran cymedrig cadarnhau colli clyw oedd 11.2 wythnos.
- Yr oedran cymedrig gosod cymorth clyw oedd 16.1 wythnos.
- Derbyniodd 80.0% o fabanod gymhorthion clyw o fewn pedair wythnos i gadarnhau colli clyw.

3 Data

3.1 Safonau

Mae'r tabl hwn yn amlinellu'r safonau a osodwyd gan y rhaglen sgrinio i fonitro perfformiad.

Tabl 1: Safonau perfformiad y rhaglen

Safonau NBHSW – Rhaglen Sgrinio

	Amcan	Meini Prawf	Safon Ofynnol	Gwerth Gwirioneddol	Bodlonwyd	Amrywiad o 2018/19
1	Sicrhau bod cynifer o fabanod â phosibl yn cael cynnig sgrinio	Canran y babanod cymwys sy'n cael cynnig sgrinio	$\geq 99\%$ o'r holl fabanod	98.7%	Naddo	-1.2%
1b	I roi sicrwydd bod pob babi cymwys ac addas wedi cwblhau sgrinio.	Cyfran y babanod cymwys ac addas sy'n cwblhau sgrinio. (Cwmpas)	$\geq 98\%$ o fabanod cymwys ac addas	97.2%	Naddo	Dangosydd newydd - heb adrodd arno yn 2018/19
2b	Rhoi sicrwydd bod pob babi cymwys ac addas y rhoddir cynnig sgrinio iddo yn cael ei wneud a'i dderbyn yn cael canlyniad sgrinio wedi'i gwblhau.	Canran y babanod cymwys ac addas sy'n cael cynnig sgrinio sy'n cwblhau sgrinio. (Canran y rhai a gafodd eu sgrinio)	$\geq 98\%$ o'r holl fabanod sy'n cael cynnig sgrinio	98.5%	Do	Dangosydd newydd - heb adrodd arno yn 2018/19
3	Sgrinio'r rhan fwyaf o fabanod o fewn wythnos gyntaf eu hoes	Canran y babanod a gafodd y prawf sgrinio cyntaf o fewn wythnos gyntaf eu hoes	$\geq 70\%$ o'r babanod iach hynny a sgriniwyd	75.2%	Do	+1.1%
4	Sicrhau bod cynifer o fabanod â phosibl yn cwblhau'r rhaglen o fewn y cyfnodau amser a ddyrennir	Babanod iach - canran y babanod sy'n cwblhau'r rhaglen sgrinio o fewn pedair wythnos	$\geq 90\%$ o'r holl fabanod sy'n ymuno â'r rhaglen sgrinio	97.8%	Do	-0.8%
		Babanod risg uchel mewn Uned Gofal Arbennig Babanod > 48 awr - canran y babanod sy'n cwblhau'r rhaglen sgrinio	$\geq 98\%$ o'r holl fabanod risg uchel a ymunodd â'r rhaglen sgrinio	100%	Do	= Dim
		Yr holl fabanod - canran y babanod sy'n cwblhau'r rhaglen sgrinio	$\geq 99\%$ o'r holl fabanod sy'n ymuno â'r rhaglen sgrinio	99.8%	Do	-0.2%

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

	Amcan	Meini Prawf	Safon Ofynnol	Gwerth Gwirioneddol	Bodlonwyd	Amrywiad o 2018/19
5	Lleihau nifer y babanod y mae angen ABR diagnostig arnynt y mae ganddynt glyw arferol	Y babanod hynny sy'n cael eu hatgyfeirio i gael ABR diagnostig â chlyw arferol	<3% o'r holl rai sy'n cwblhau asesiad ac y canfyddir bod ganddynt glyw arferol fel cyfran o'r holl fabanod a sgriniwyd	0.7%	Do	-0.1%
6	Dechrau'r weithdrefn asesu (ABR diagnostig) mewn achosion priodol o fewn yr amser a ddyrennir	Babanod iach a atgyfeiriwyd sy'n dechrau'r weithdrefn asesu (ABR Diagnostig) mewn achosion priodol o fewn pedair wythnos	>=90% o'r rhai a atgyfeiriwyd	96.2%	Do	-1.8%
		Babanod risg uchel a atgyfeiriwyd sy'n dechrau'r weithdrefn asesu (ABR Diagnostig) mewn achosion priodol o fewn wyth wythnos	>=90% o'r rhai a atgyfeiriwyd	98.8%	Do	= Dim
7	Cwblhau'r weithdrefn asesu o fewn yr amser a ddyrennir	Y babanod hynny sy'n cwblhau'r weithdrefn asesu o fewn tri mis (mewn achosion priodol)	>=85% o'r rhai y mae angen asesiad arnynt	89.3%	Do	-4.3%
8	Lleihau nifer y babanod nad ydynt yn cael eu sgrinio	Canran yr apwyntiadau sgrinio a gynigiwyd nad aethpwyd iddynt (babanod iach)	<=3% (<u>yn cynnwys apwyntiadau nad aethpwyd iddynt yn unig</u>)	2.5%	Do	+0.2%
9	Lleihau nifer y babanod nad ydynt yn cael eu sgrinio	Canran yr apwyntiadau sgrinio a gynigir a	< 1% o fabanod iach	0.2%	Do	+0.1%

wrthodir (babanod
iach)

	Amcan	Meini Prawf	Safon Ofynnol	Gwerth Gwirioneddol	Bodlonwyd	Amrywiant o 2018/19
10	Atgyfeirio nifer priodol o fabanod i gael eu hasesu	Canran y babanod a sgriniwyd a gafodd eu hatgyfeirio am asesiad	Rhwng 1-2%	1.2%	Do	= Dim
11	Lleihau nifer y babanod nad ydynt yn cael asesiad	Canran yr apwyntiadau asesu a gynigiwyd nad aethpwyd iddynt	< 10% (apwyntiadau nad aethpwyd iddynt yn unig)	8.5%	Do	-2.3%
12	Lleihau nifer y babanod nad ydynt yn cael asesiad	Canran y babanod sy'n cael eu hatgyfeirio am asesiad nad ydynt yn cael eu gweld	< 5%	9.0%	Naddo	+5.5%
13	Atgyfeirio nifer priodol o fabanod i gael sgrinio arall gan awdioleg (ymateb clir mewn un glust, babanod iach)	Canran y babanod a sgriniwyd sy'n cael eu hatgyfeirio	< 1%	1.3%	Naddo	+0.3%
16	Darparu gwybodaeth i hyrwyddo dewis hyddysg.	Canran y mamau sy'n darparu ymatebion cadarnhaol ar is-raddfa wybodaeth arolwg defnyddwyr. Gall y meini prawf ar gyfer cynnwys yn yr arolwg gael eu dewis er mwyn cymharu profiadau teuluoedd	>90% ymatebion cadarnhaol gan famau sy'n cwblhau'r arolwg defnyddwyr	98.7% (Data o Arolwg y Rhaglen Mamau a Phlant Ebrill 2019 a Hydref 2019)	Do	Dd/B*
17	Gwerthuso boddhad mamau ar y rhaglen sgrinio	Canran y mamau sy'n darparu ymatebion cadarnhaol ar is-raddfa boddhad cyffredinol arolwg defnyddwyr. Gall	>= 95% o famau'n cwblhau holiadur arolwg defnyddwyr	96.8% (Data o Arolwg y Rhaglen Mamau a Phlant Ebrill	Do	-3.2%

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

		y meini prawf ar gyfer cynnwys yn yr arolwg gael eu dewis er mwyn cymharu profiadau teuluoedd.		2019 a Hydref 2019)		
--	--	--	--	----------------------------	--	--

* Sylwer na ellir cyfrifo amrywiant o 2018/2019 ar gyfer Safon 16 gan fod y cwestiwn ar yr is-raddfa wybodaeth yn Arolwg Rhaglen Mamau a Phlant 2019 yn wahanol i'r hyn yn Arolwg Rhaglen Mamau a Phlant 2018. Mae'r cwestiwn wedi'i ddiweddarau yn canolbwyntio ar ba mor ddealladwy yw'r wybodaeth cyn sgrinio.

3.2 Cwmpas

Safon 1: $\geq 99\%$ o fabanod cymwys yn cael cynnig sgrinio

Tabl 2: Cyfanswm nifer y genedigaethau byw yn ôl Bwrdd Iechyd, babanod cymwys ac addas, nifer a chyfran a gydsyniodd ac a brofwyd


Bwrdd Iechyd	Genedigaethau	Cymwys ac Addas	Cydsyniwyd a Phrofwyd	% Profwyd o'r Cymwys ac Addas	Cyfanswm a Gynigiwyd	% a Gynigiwyd o'r Cymwys ac Addas
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	6283	6137	6003	97.8%	6057	98.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	6793	6596	6438	97.6%	6530	99.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	5160	4997	4876	97.6%	4969	99.4%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	4434	4353	4211	96.7%	4275	98.2%
Prifysgol Hywel Dda	3258	3179	3065	96.4%	3113	97.9%
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	1119	1068	1028	96.3%	1041	97.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	3528	3437	3361	97.8%	3395	98.8%
Cymru Gyfan	30575	29767	28982	97.4%	29380	98.7%

Cafodd y safon ei chyrraedd ym mhob rhanbarth yng Nghymru tan chwarter olaf 2019/20. Effeithiodd pandemig COVID-19 ar gwmpas y gwasanaeth, mewn ysbytai ac mewn clinigau cymunedol, fel y disgrifir yn adran 1.4. Mewn ymateb i'r pandemig, sefydlwyd trefniadau amgen i sicrhau bod y babanod hynny na allai NBHSW gynnig sgrinio rheolaidd iddynt yn cael cynnig asesiadau clyw drwy wasanaethau NBHSW neu Awdioleg.


3.3 Amseroldeb profi

Safon 3: $\geq 70\%$ y babanod iach a gafodd eu sgrinio gan y prawf sgrinio cyntaf o fewn wythnos gyntaf oes

Graff 1: Amseroldeb babanod iach sy'n cael eu prawf cyntaf yn yr ysbyty



Graff 2: Amseroldeb babanod iach sy'n cael eu prawf cyntaf yn y gymuned




Cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer babanod iach a gafodd brawf cychwynnol o fewn saith diwrnod i'w genedigaeth mewn unrhyw leoliad yw 75.2%. Mae hyn yn gynydd o 1.1% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mewn rhai ardaloedd nid yw'n bosibl cynnal sgrinio cychwynnol yn yr ysbyty. Mae genedigaethau yn y cartref, rhyddhau o'r ysbyty yn gynnar a sgrinio cyfyngedig yn yr ysbyty ar benwythnosau yn effeithio ar y ffigur hwn am nad oes cyfle i sgrinio yn yr ysbyty.

Safon 4: $\geq 90\%$ o fabanod iach sy'n ymuno â'r rhaglen sgrinio yn cwblhau sgrinio o fewn pedair wythnos

Graff 3: Babanod iach a gwblhaodd sgrinio o fewn pedair wythnos



Roedd saith deg pump o fabanod dros chwe wythnos oed cyn eu prawf cychwynnol. Mae hyn yn gynnydd o 44 o fabanod o'r flwyddyn flaenorol sy'n ymwneud â phrinder staff a brofwyd yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru ar ddechrau 2020. Mae'r gwasanaeth yn parhau i annog presenoldeb drwy adolygu lleoliadau ac amseroedd clinigau mewn perthynas â chyfleustra i rieni a chytuno ar apwyntiadau dros y ffôn.

Ledled Cymru, cafodd 97.8% o fabanod iach eu sgrinio o fewn pedair wythnos sydd 0.8% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae sgrinio wedi'i gwblhau pan fydd y babi'n cael ei ryddhau neu ei atgyfeirio i gael asesiad. Ar gyfer mwyafrif y babanod sy'n byw ym Mhowys nid oes cyfle iddynt gael eu sgrinio yn yr ysbyty. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o amllder clinigau, mae'r safon ar gyfer canran y babanod a gwblhaodd sgrinio o fewn pedair wythnos wedi ei chynydd yn gyfforddus eto ar 94.9%, sef gostyngiad o 2.2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

3.4 Presenoldeb mewn apwyntiadau sgrinio i fabanod iach

Safon 8: $\leq 3\%$ o apwyntiadau sgrinio a gynigiwyd nad aethpwyd iddynt (apwyntiadau nad aethpwyd iddynt yn unig)

Safon 9: $< 1\%$ o apwyntiadau sgrinio a gynigiwyd a wrthodwyd

Tabl 3.i: Presenoldeb babanod iach mewn apwyntiadau sgrinio Cymru gyfan

Lleoliad Sgrinio	Yn bresennol (%)	Nad aethpwyd iddynt (%)	Canslwyd (%)	Gwrthododd y Rhiant (%)	Cyfanswm
Cymru Gyfan	29541 (92.5%)	795 (2.5%)	1551 (4.9%)	59 (0.2%)	31946

Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i 1 lle degol

Mae'r safon ar gyfer apwyntiadau nad aethpwyd iddynt wedi ei chyrraedd eto eleni ar 2.5%. Mae apwyntiadau a ganslwyd yn parhau ar lefel debyg i'r llynedd ar 4.9% er gwaethaf ymdrechion parhaus i gytuno ar apwyntiadau cyfleus gyda'r rhieni a sicrhau cymaint o gyfleuster â phosibl o ran lleoliadau ac amseroedd clinigau.

Tabl 3.ii: Presenoldeb babanod iach mewn apwyntiadau sgrinio fesul Bwrdd Iechyd

Lleoliad Sgrinio	Yn bresennol (%)	Nad aethpwyd iddynt neu a Ganslwyd (%)	Gwrthododd y Rhiant (%)	Cyfanswm
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	92.9%	7.0%	0.1%	6270
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	94.6%	5.3%	0.1%	7151
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	93.0%	6.8%	0.2%	5865
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	89.7%	10.1%	0.2%	5375
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	89.4%	10.1%	0.5%	3251

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20			
--------------------------------------	--	--	--	--


Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	90.6%	9.2%	0.1%	682
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	94.0%	5.8%	0.1%	3352

Mae nifer y cleifion sy'n gwrthod y prawf sgrinio yn parhau i fod yn fach iawn er gwaethaf y pandemig.

3.5 Babanod risg uchel sy'n cwblhau sgrinio

Safon 4: $\geq 98\%$ o'r holl fabanod risg uchel a ymunodd â'r rhaglen sgrinio yn cwblhau sgrinio

Graff 4: Babanod risg uchel sy'n cwblhau sgrinio



100.0% o fabanod risg uchel sy'n cwblhau sgrinio.

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

3.6 Canlyniadau Sgrinio

Safon 10: Rhwng 1 a 2 % o fabanod a sgriniwyd a gafodd eu hatgyfeirio am asesiad

Safon 13: <1 % o fabanod a sgriniwyd a atgyfeiriwyd i awdioleg am ragor o sgrinio (babanod iach ag ymateb clir mewn un glust)

Tabl 4: Canlyniadau sgrinio ar gyfer babanod iach

Lleoliad Sgrinio	Rhyddhawyd	Atgyfeiriwyd am Asesiad	Atgyfeiriwyd i Awdioleg	Atgyfeiriwyd am Brawf Ymddygiadol
Y tu allan i Gymru	97.3%	0.1%	1.4%	1.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	96.8%	0.9%	1.7%	0.4%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	97.0%	0.7%	1.1%	0.9%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	96.6%	1.0%	1.8%	0.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	97.5%	1.1%	0.8%	0.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	98.3%	0.6%	0.6%	0.4%
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	97.9%	0.9%	0.3%	0.9%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	97.4%	0.6%	1.3%	0.6%
Cyfanswm Cymru Gyfan	97.2%	0.8%	1.3%	0.6%

Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i 1 lle degol

Mae'r tabl uchod yn eithrio babanod risg uchel ac felly mae'n dangos bod 0.8% o fabanod iach yn cael eu hatgyfeirio am Asesiad yn dilyn dim ymateb clir dwyochrog. Mae atgyfeiriadau i awdioleg ar gyfer sgrinio arall ar 1.3% yn gyffredinol.

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

Tabl 5: Canlyniadau sgrinio ar gyfer babanod risg uchel

Lleoliad Sgrinio	Rhyddhawyd	Atgyfeiriwyd am Asesiad	Atgyfeiriwyd am Brawf Ymddygiadol
Y tu allan i Gymru	79.3%	15.5%	5.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	90.6%	7.5%	1.9%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	92.0%	6.4%	1.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	88.4%	10.2%	1.4%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	94.3%	5.7%	0.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	98.1%	1.2%	0.6%
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	-	-	-
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	89.3%	9.1%	1.6%
Cyfanswm Cymru Gyfan	91.5%	7.2%	1.3%

Er bod yr atgyfeiriadau cyffredinol ar gyfer asesu yn cyrraedd y safon o 1-2% o fabanod a sgriniwyd, mae, fel y disgwylir, canran uwch o fabanod risg uchel yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad. Mae atgyfeiriadau ar gyfer asesu ar gyfer babanod risg uchel yn cynnwys y rhai heb ymateb clir mewn un glust yn ogystal â'r rhai heb ymateb clir dwyochrog.

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynnyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	---

3.7 Atgyfeiriadau ar gyfer asesu

Safon 10: Rhwng 1 a 2% o fabanod a sgriniwyd yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad

Tabl 6: Atgyfeiriadau ar gyfer asesu

Lleoliad	Cyfanswm a Sgriniwyd	Atgyfeiriwyd am asesiad	% o Fabanod a Atgyfeiriwyd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	6003	89	1.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	6438	64	1.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	4876	68	1.4%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	4211	63	1.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	3065	22	0.7%
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	1028	12	1.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	3361	40	1.2%
Cymru Gyfan	28982	358	1.2%

Mae'r dadansoddiad uchod yn seiliedig ar leoliad sgrinio yn hytrach na lleoliad asesu, dylid nodi y bydd rhai babanod yn cael eu hasesu mewn ardal Bwrdd Iechyd gwahanol i'r hyn lle y cawsant eu sgrinio. Roedd 53 o fabanod ychwanegol a atgyfeiriwyd yn uniongyrchol i gael eu hasesu o ganlyniad i benderfyniad meddygol heb gwblhau sgrinio yn gyntaf.

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

3.8 Presenoldeb mewn apwyntiadau asesu - babanod iach a risg uchel

Safon 11: <10% sy'n cael cynnig apwyntiadau asesu heb fynd i'r apwyntiad (apwyntiadau nad aethpwyd iddynt yn unig)

Tabl 7.i: Presenoldeb Cymru gyfan mewn apwyntiadau asesu (gan gynnwys clinig cymunedol ac ysbyty y tu allan i Gymru)

Bwrdd Iechyd	Aethpwyd	Canslwyd	Gwrthododd y Rhiant	Nad aethpwyd iddynt	Cyfanswm
Cyfanswm Cymru Gyfan	505 (72.7%)	103 (14.8%)	28 (4.0%)	59 (8.5%)	695

Tabl 7.ii: Presenoldeb mewn apwyntiadau asesu yn ôl Bwrdd Iechyd

Bwrdd Iechyd	Aethpwyd	% Nad aethpwyd iddynt
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	117	8.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	115	7.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	106	7.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	87	13.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	32	7.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	45	6.3%

Mae'r safon ar gyfer Cymru Gyfan yn cael ei chyrraedd ar 8.5%, gwelliant o 2.3% o'r flwyddyn flaenorol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae amrywioldeb rhwng byrddau iechyd. Mae gwaith yn parhau i leihau canran y rhai nad ydynt yn mynd i'r apwyntiadau asesu.

3.9 Yr amser a gymerir i ddechrau a chwblhau asesiadau

Safon 6: $\geq 90\%$ o fabanod iach yn dechrau asesiad o fewn pedair wythnos

Safon 6: $\geq 90\%$ o fabanod risg uchel yn dechrau asesiad o fewn wyth wythnos

Tabl 8: Amser a gymerir i ddechrau asesiad

	% sy'n Dechrau o fewn Amserlenni Penodol	
Lleoliad Asesu	Babanod iach	Babanod risg uchel
Ysbyty y tu allan i Gymru	100.0%	100.0%
Ysbyty Glan Clwyd	100.0%	100.0%
Ysbyty Gwynedd	100.0%	100.0%
Ysbyty Castell-nedd Port Talbot	100.0%	100.0%
Ysbyty Nevill Hall	100.0%	100.0%
Ysbyty Tywysoges Cymru	100.0%	100.0%
Ysbyty Brenhinol Morgannwg	100.0%	-
Ysbyty Brenhinol Gwent	93.6%	97.6%
Ysbyty Singleton	100.0%	100.0%
Ysbyty Athrofaol Cymru	93.6%	100.0%
Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru	100.0%	100.0%
Ysbyty Maelor Wrecsam	100.0%	94.7%
Adran Cleifion Allanol Ysbyty Cwm Cynon	91.7%	100.0%
Cyfanswm Cymru Gyfan	96.2%	98.8%

Mae ffigurau Cymru Gyfan yn dangos gostyngiad bach yn y grŵp babanod iach. Mae hyn yn ymwneud â 9 baban lle cafodd yr apwyntiad asesu cychwynnol ei oedi, y cafodd 6 ohonynt eu hatgyfeirio ym mis Mawrth/Ebrill 2020 ar adeg effaith gychwynnol Covid ar wasanaethau.

Mae'r ffigur Risg Uchel yn ymwneud â 2 fabi yn unig, y cafodd un ohonynt ei oedi oherwydd effaith Covid.

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

Safon 7: $\geq 85\%$ o fabanod yn cwblhau asesiad o fewn tri mis (os yw'n briodol)

Safon 12: $< 5\%$ o fabanod a atgyfeiriwyd i gael eu hasesu heb eu gweld

Tabl 9.i: Amser Cymru Gyfan a gymerwyd i gwblhau'r asesiad
Mae'n cynnwys clinigau cymunedol ac ysbytai y tu allan i Gymru

Lleoliad Asesu	Ni aethpwyd erioed	Aethpwyd ond ni aethpwyd i'r prawf terfynol	Heb Gwblhau Eto	Cwblhawyd < 3 Mis	Cwblhawyd 3+ Mis
Cyfanswm Cymru Gyfan	9.0%	0.7%	0.0%	89.3%	1.0%

Mae Safon 7 yn parhau i gael ei chyrraedd ond gyda gostyngiad o 4.3% o gymharu â ffigurau'r llynedd ar gyfer babanod sy'n cwblhau asesiad o fewn tri mis. Mae cynnydd o 5.5% yn nifer y babanod sy'n cael eu hatgyfeirio ond heb eu gweld. Mae hyn yn ymwneud ag effaith pandemig Covid-19 fel y'i disgrifiwyd yn adran 1.4.

Tabl 9.ii: Amser a gymerir i gwblhau asesiad fesul Ysbyty

Lleoliad Asesu	Ni aethpwyd erioed	Aethpwyd ond ni aethpwyd i'r prawf terfynol	Heb Gwblhau Eto	Cwblhawyd < 3 Mis	Cwblhawyd 3+ Mis
Ysbyty Glan Clwyd	0.0%	0.0%	0.0%	95.8%	4.2%
Ysbyty Gwynedd	10.0%	0.0%	0.0%	90.0%	0.0%
Ysbyty Castell-nedd Port Talbot	14.3%	0.0%	0.0%	85.7%	0.0%
Ysbyty Nevill Hall	13.3%	0.0%	0.0%	86.7%	0.0%
Clinig Clyw Babanod, Ysbyty Cwm Rhondda	0.0%	0.0%	0.0%	100.0%	0.0%
Ysbyty Tywysoges Cymru	0.0%	0.0%	0.0%	100.0%	0.0%
Ysbyty Brenhinol Morgannwg	0.0%	0.0%	0.0%	100.0%	0.0%
Ysbyty Brenhinol Gwent	10.0%	1.1%	0.0%	87.8%	1.1%
Ysbyty Singleton	2.7%	0.0%	0.0%	97.3%	0.0%
Ysbyty Athrofaol Cymru	8.5%	0.0%	0.0%	90.2%	1.2%

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru	3.8%	0.0%	0.0%	96.2%	0.0%
Ysbyty Maelor Wrecsam	7.3%	0.0%	0.0%	90.2%	2.4%
Adran Cleifion Allanol Ysbyty Cwm Cynon	22.0%	4.0%	0.0%	74.0%	0.0%
Ysbytai y tu allan i Gymru	0.0%	0.0%	0.0%	100.0%	0.0%

3.10 Cadarnhau colli clyw

Cyfanswm nifer y babanod a nodwyd â cholli clyw dwyochrog cymedrol neu uwch parhaol yng Nghymru a anwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 yw 31. O ran nifer yr achosion, roedd 1.1 fesul 1,000 o fabanod a sgriniwyd.

Tabl 10: Nifer y babanod ag achosion a gadarnhawyd o golli clyw (fel y diffiniwyd uchod) a anwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 yn ôl Rhanbarth

Rhanbarth	Cyfanswm
Gogledd Cymru	6
Canolbarth a Gorllewin Cymru	7
De Cymru	18
Cyfanswm Cymru Gyfan	31

Mae Tabl 11 yn dangos oedran cyfartalog a chanolrif o ran cadarnhau colli clyw mewn babanod a anwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

Tabl 11: Oedran cadarnhau colli clyw

Bwrdd Iechyd	Cyfartalog (wythnosau)	Canolrif (wythnosau)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	9.4	7.8
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	12.3	12.3
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	11.8	7.3
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7.8	6.7
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	18.4	14.9
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	8.0	8.0
Cyfanswm Cymru Gyfan	11.2	9.0

3.11 Gosod cymorth clyw

Oedran cyfartalog a chanolrif gosod cymorth clyw yn ôl Bwrdd Iechyd

Mae Tabl 12 yn dangos oedran cyfartalog a chanolrif gosod cymorth clyw babanod a anwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Mae'r ffigurau hyn yn caniatáu ar gyfer cynamseroldeb.

Tabl 12: Oedran pan osodwyd y cymorth clyw


Bwrdd Iechyd	Cyfartalog (wythnosau)	Canolrif (wythnosau)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	15.8	11.0
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	15.8	13.6
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	21.6	21.5
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	8.9	6.0

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Clyw Babanod Cymru 2019/20
--------------------------------------	--

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	20.1	16.1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	17.6	17.6
Cyfanswm Cymru Gyfan	16.1	11.7

Mae'r ffigurau yn Nhablau 11 ac 12 yn cael eu heffeithio gan nifer bach o fabanod a nodwyd ym mhob Bwrdd Iechyd. Gall ffactorau clinigol a chymdeithasol ddylanwadu ar amseru cadarnhau colli clyw a gosod cymorth clyw.

Graff 5: Gosod cymorth clyw o fewn pedair wythnos i nodi colli clyw yn ôl Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019 – 2020



Mae 80.0% o fabanod yng Nghymru yn cael cymorth clyw wedi ei osod o fewn pedair wythnos i'w nodi.

Gall gosod cymorth clyw yn brydlon ar gyfer babanod a nodwyd â cholli clyw gael ei ddylanwadu gan ffactorau clinigol a chymdeithasol ac nid yw bob amser yn adlewyrchu materion o ran darparu gwasanaeth.

3.12 Deilliant, Sensitifrwydd, Penodoldeb a Gwerthoedd Rhagfynegol

Mae'r deilliant o'r rhaglen yn nodi bod nifer yr achosion a ganfuwyd yn gysylltiedig â nifer y babanod a sgriniwyd yn 1:788. Sensitifrwydd y rhaglen yw 89.9% gyda phenodoldeb o 98.8%. Gwerth rhagfynegol positif y sgrinio yw 9.7%.

4 Diffiniadau

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y cyfrifiadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

Bwrdd Iechyd

Cymerir data sgrinio o'r system Clyw Babanod Cymru Gyfan. Dyrennir babanod i Fyrddau Iechyd yn seiliedig ar breswylfa, oni nodir bod y lleoliad yn seiliedig ar lle y digwyddodd y sgrinio. Nid ydym yn cadw data ar fan geni.

Babanod cymwys

Babanod a anwyd i famau sy'n preswyllo dros dro neu'n barhaol yng Nghymru ar adeg geni a babanod sy'n symud i Gymru o dan chwe wythnos oed.

Yn addas ar gyfer profi

Mae babanod yn addas ar gyfer profi pan fyddant hwy a'u mam yn iach. Mae babanod sy'n cael eu geni cyn eu hamser yn addas ar gyfer eu profi pan fydd oedran yn ystod beichiogrwydd y baban dros 36 wythnos.

Canran y rhai a gafodd eu sgrinio

Cyfran y babanod cymwys ac addas sy'n cael eu profi.

Babanod risg uchel

Babanod sydd wedi treulio mwy na 48 awr mewn Uned Gofal Arbennig Babanod/Uned Gofal Dwys i'r Newydd-anedig.

Babanod iach

Pob babi nad yw'n cael ei ddosbarthu fel risg uchel.

Atgyfeirio ar gyfer ailsgrinio mewn Awdioleg

Cais rhieni ar gyfer ailsgrinio yn dilyn canlyniad ymateb clir un glust ar gyfer baban iach wrth gwblhau sgrinio.

Prawf Ymddygiadol wedi'i dargedu

Asesiad clyw i fabanod a gynhelir gan awdiolegwyr ar oedran datblygiadol o naw mis. Cynigir hyn i fabanod nad ydynt yn cwblhau sgrinio nac asesiad, babanod y mae eu rhieni yn gofyn am waith dilynol i faban iach gydag ymateb clir un glust, a babanod sydd wedi nodi ffactorau risg ar gyfer colli clyw.

Deilliant

Nifer y babanod â chanlyniad dilynol sy'n bodloni'r diffiniad o achos targed, fesul 1,000 o fabanod a sgriniwyd. Yr achos targed ar gyfer NBHSW yw colli

clwyd dwyochrog parhaol ar lefel sy'n uwch na 40 dBHL ar draws yr ystod amledd 500Hz, 1KHz, 2kHz a 4KHz.

Sensitifrwydd

Y nifer ag achosion a gadarnhawyd o golli clyw a nodwyd yn gywir fel rhai positif mewn prawf sgrinio.

Penodoldeb

Y nifer a gadarnhawyd heb golli clyw a nodwyd yn gywir fel rhai negyddol mewn prawf sgrinio.

Gwerth Rhagfynegol

Cyfran yr achosion a atgyfeiriwyd yn dilyn prawf sgrinio positif y canfuwyd eu bod wedi colli clyw a bod hyn wedi ei gadarnhau.

5 Tîm Cynhyrchu

Tîm Cynhyrchu:

Jacqui Evans	Rheolwr Sgrinio Babanod, Gogledd Cymru
Meg Shepherd	Cydlynnydd Rhaglen, Gogledd Cymru
Jackie Harding	Cydlynnydd Rhaglen, De Cymru
Lara Tompkins	Cydlynnydd Rhaglen, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Ruth Lawler	Pennaeth Rhaglen, Sgrinio Mamau a Phlant
Sikha de Souza	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Sgrinio
Dr Sharon Hillier	Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio
Helen Clayton	Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data
Kate Lilly	Uwch-arbenigwr Gwybodeg a Data
Christie Redman	Uwch-ddadansoddwr Gwybodeg a Data
Sheona Roberts	Swyddog Cyfathrebu
Diane Rawlings	Cynorthwydd Personol
Rhys George	Cofus Cyf (Cyfieithiad Cymraeg)

Ni chafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol